

Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru

Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr 2020-21

Cyflwyniad

1. Diben y Canllawiau hyn yw cadarnhau'r blaenoriaethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi drwy grant y Gronfa Teithio Llesol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2020-21.
2. Maent hefyd yn nodi'r broses y dylai awdurdodau lleol ei dilyn er mwyn cyflwyno ceisiadau yn unol â'r blaenoriaethau hyn, a sut y byddant yn cael eu hasesu, i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru.
3. **Yn eich ceisiadau, mae'n rhaid ichi ddangos eich bod wedi dilyn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Llywodraeth Cymru.**
<https://llyw.cymru/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag>

Newidiadau o'r rhaglen flaenorol

4. Cafwyd rhai newidiadau pwysig i'r broses o wneud cais ar gyfer rhaglen y Gronfa Teithio Llesol yn 2020/21. Gwnaed y rhain mewn ymdrech i gefnogi uchelgais a gwella ansawdd cynlluniau sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ddulliau ymgysylltu effeithiol a sicrhau bod y broses o fonitro a gwerthuso yn cael ei defnyddio i ddangos effaith y cynlluniau.
5. Er mwyn galluogi'r newidiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cymorth gan Trafnidiaeth Cymru a Sustrans Cymru i fwrw golwg dros y ffurflen gais ac adolygu'r broses sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu cynlluniau teithio llesol a ariennir drwy raglen y Gronfa Teithio Llesol. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys cyflwyno categorïau cynllun er mwyn helpu i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o reoli risgiau'r cynllun o fewn y rhaglen, yn ogystal â chyflwyno egwyddorion dylunio a system gam wrth gam er mwyn rhoi gwell sicrwydd o ran ansawdd i Lywodraeth Cymru.

Egwyddorion Dylunio

6. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau sy'n uchelgeisiol a sicrhau bod pob prosiect, sy'n cael cyllid, yn cael yr effaith fwyaf posibl, caiff yr egwyddorion dylunio canlynol eu nodi:
 - Datblygu eich cynigion drwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, gan gydweithio â rhanddeiliaid allweddol a chynnwys cymunedau.
 - Hwyluso cerdded, beicio a dulliau teithio eraill sy'n defnyddio olwynion, yn annibynnol i bawb, gan gynnwys plentyn oed ysgol uwchradd ar ei ben ei hun neu feiciwr llai profiadol;
 - Dylunio seilwaith sydd â'r nod o ragori ar safonau dylunio sylfaenol, yn hytrach na dim ond eu bodloni;
 - Sicrhau hygyrchedd i bawb a chyfle cyfartal mewn mannau cyhoeddus;
 - Sicrhau y caiff pob cynnig ei ddatblygu mewn ffordd a arweinir gan dystiolaeth;

- Dylai cynlluniau flaenoriaethu pobl sy'n cerdded, beicio a defnyddio dulliau teithio eraill sy'n defnyddio olwynion dros gerbydau modur preifat, drwy ystyried yr hierarchaeth ganlynol wrth lunio'r cynllun:
 - Cadw cerddwyr ar wahân i feicwyr a thraffig modur drwy ddarparu seilwaith gwahanedig oddi ar y cerbyttfordd; drwy aildosbarthu hyd ffyrdd, os bydd angen
 - Cadw cerddwyr a beicwyr ar wahân i draffig modur drwy ddarparu seilwaith oddi ar y cerbyttfordd a rennir;
 - Gwella amodau ar y ffordd er mwyn annog a chynyddu'r niferoedd sy'n beicio ar briffordd bresennol, er enghraifft drwy leihau lefelau traffig a chyflymder.
7. Caiff pob cynllun ei asesu ar sail y graddau y mae'n cyflawni'r egwyddorion dylunio uchod, gyda phwyslais penodol ar y graddau y mae'r cynlluniau yn bodloni safonau ansawdd seilwaith sylfaenol neu'n rhagori arnynt, fel y'u pennir gan yr adnoddau archwilio yng Nghanllawiau Dylunio'r Ddeddf Teithio Llesol.
8. Mae dyletswydd gyfreithiol wedi'i gosod ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau newydd, drwy Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2011. O ganlyniad, dylai pob prosiect fod yn destun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, yn unol â'r dull gweithredu y mae eich awdurdod lleol wedi'i fabwysiadu, a dylid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb a ragfynegir.

Graddfa'r Prosiect a Chategoriâu'r Cynllun

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi amrywiaeth o gynlluniau sy'n amrywio o ran maint, graddfa a chwmpas, a chaiff awdurdodau lleol eu hannog i ddatblygu cynlluniau sy'n uchelgeisiol wrth geisio bodloni'r egwyddorion dylunio a nodwyd.
10. Er mwyn helpu i benderfynu ar lefel y cymorth, y trosolwg a'r rheoli risg sydd eu hangen ar gyfer prosiect neu becyn o brosiectau, dylai awdurdodau lleol nodi categori cynllun ar gyfer pob prosiect yn seiliedig ar y tabl isod:

Categori	Disgrifiad	Trothwy dangosol	Categori Risg WelTAG
1	Bydd prosiectau yn debygol o fod ar raddfa lai â risg isel, gyda llai o gymhlethdod technegol, a bydd angen llai o gymorth arnynt. Y prif ffocws fydd y cynlluniau gwaith mân, gan gynnwys mentrau ardal gyfan megis gwella arwyddion, newid/cael gwared ar rwystrau, uwchraddio mannau croesi a gweithio i greu athreithedd wedi'i hidlo.	<£100K	Isel
2	Cynigion ar raddfa fach a chanolig y gellir eu cyflawni o fewn un flwyddyn ariannol heb fawr ddim trafferth. Tebygolrwydd o allbynnau sylweddol o ran defnydd neu effaith leol.	£100K	Isel/Canolig
3	Cynlluniau o faint canolig. Y mwyaf y gellir ei gwblhau mewn blwyddyn, ond y gellid ei rannu dros ddwy flynedd.	£250K - £1m	Canolig/Uchel

4	Aml-flwyddyn. Prosiectau mawr a chymhleth â galwadau croes cymhleth y mae angen mwy o gymorth arnynt er mwyn eu cyflawni.	£1m+	Uchel
---	---	------	-------

System Cam Wrth Gam

- Er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu yn unol â'r broses WelTAG, mae system gam wrth gam yn cael ei chyflwyno ar gyfer rhaglen y Gronfa Teithio Llesol. Yn atodiad 4, ceir esboniad o'r hyn y dylid ei ystyried ar bob cam, a'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi'r rhaglen i ddatblygu drwy'r camau. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi eu hamserlen disgwylidig ar gyfer datblygu drwy'r camau amrywiol, ar eu ffurflen gais.
- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth i ddangos datblygiad boddhaol drwy'r camau fel rhan o'u hawliadau chwarterol a'r broses adrodd. Caiff y dystiolaeth hon ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru neu ei chynrychiolwyr er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r broses WelTAG wrth ddatblygu eu cynlluniau. Bydd yr adolygiad hwn yn ffurfio rhan o'r asesiad o hawliadau awdurdodau lleol.

Canlyniadau

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau, a dilyn dull gweithredu mwy cydgysylltiedig.
- Mae Deddf 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant ym mhopeth y maent yn ei wneud.
- Mae Ffyniant i Bawb: y strategaeth i Gymru yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Symud Cymru Ymlaen, ac yn rhoi'r amcanion llesiant o dan bedair thema allweddol. **Mae'n rhaid i'ch ceisiadau ddangos sut y bydd eich cynnig yn bodloni eich amcanion llesiant lleol a fydd yn cyfrannu at yr amcanion cenedlaethol hyn.**

Ffyniant i Bawb	Amcanion Llesiant
Ffyniannus a Diogel	- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant - Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg - Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
Iach ac Egnïol	- Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas at y dyfodol - Hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb - Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell
Uchelgeisiol ac yn Dysgu	- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial - Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes - Grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid

Ffyniant i Bawb	Amcanion Llesiant
Unedig a Chysylltiedig	• Meithrin cymunedau cadarn, diwylliant, ac iaith • Cyflwyno seilwaith modern a chysylltiedig • Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

16. Mae'n rhaid i'ch ceisiadau ddangos sut y bydd eich cynigion yn cyfrannu at fodloni amcanion grant y Gronfa Teithio Llesol fel y'u nodir isod.

Enw'r Grant	Amcanion y Grant
Cronfa Teithio Llesol	• Annog newid moddol o ddefnyddio ceir i deithio llesol • Gwellu mynediad teithio llesol i wasanaethau cyflogaeth, gwasanaethau addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau allweddol eraill sy'n cynhyrchu traffig a thrafnidiaeth gyhoeddus. • Cynyddu lefelau teithio llesol • Cysylltu cymunedau

Cymhwysra ar gyfer Cyllid Cyfalaf

17. Y cyfanswm sydd ar gael i ddarparu cynlluniau teithio ledled Cymru ar gyfer 2020-21 yw £30 miliwn. Mae hyn yn cynnwys hyd at £20 miliwn sydd ar gael i awdurdodau lleol drwy'r broses o wneud cais, hyd at £9 miliwn i ddarparu cyllid dyrannu craidd i awdurdodau lleol a hyd at £1 miliwn i helpu Llywodraeth Cymru i wella'r broses o weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol.

18. Gwahoddir awdurdodau lleol i wneud cais am hyd at dri chynllun teithio llesol, neu becynnau cynlluniau. Dim ond cynlluniau sydd wedi cael eu nodi ar y Map Rhwydwaith Integredig perthnasol, a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, a gaiff eu hystyried ar gyfer cyllid.

19. Mae'n rhaid i bob cynllun gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'i chanllawiau ategol. Mae'n rhaid i gynlluniau sy'n cynnwys gwella'r briffordd, adeiladu, neu reoli traffig ddangos sut y maent yn cydymffurfio'n benodol ag Adran 9 o'r Ddeddf (Darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth gyflawni rhai swyddogaethau). Ni fydd cyllid ar gyfer cynlluniau teithio llesol yn cael ei roi ond pan fydd dyluniad y cynllun yn adlewyrchu'r Canllawiau Dylunio ar gyfer Teithio Llesol. Bydd angen ichi hefyd gadarnhau bod y cynllun yn rhan o lwybr teithio llesol dynodedig cyfredol neu un ar gyfer y dyfodol.

<https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>

20. Wrth ddylunio cynlluniau, rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd eu cyfrifoldebau o dan Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn, er enghraifft, yn berthnasol iawn i'r gwaith o drin mylon ffyrdd a chynlluniau plannu fel rhan o gynlluniau trafndiaeth. Mae canllawiau

ar y ddyletswydd ar gael yma: <https://llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru2016-bioamrywiaeth-chadernidecosystemau>

21. Gall awdurdodau lleol gydweithio ar eu ceisiadau. Mae'n rhaid nodi'r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer pob cynllun. Byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r awdurdod lleol arweiniol.
22. Byddwn yn ariannu gwaith a gwaith ymlaen llaw ar gyfer cynlluniau cyfalaf, a gellir cynnwys costau monitro a gwerthuso'r gwasanaeth.
23. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu hyd at y swm a ddyfernir ar gyfer y gwariant cymwys gwirioneddol a ysgwyddir gan gynllun sydd wedi ei dderbyn. Ni fydd mwy na'r cyllid y penderfynir arno yn cael ei roi a bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol fod yn gyfrifol am unrhyw orwariant allai ddigwydd. Lle y bydd costau uwch oherwydd amgylchiadau eithriadol, y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol, gallai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael.
24. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni'r cynlluniau a dderbynnir yn unol â'u ceisiadau. Bydd angen adrodd ar y cynnydd ar adegau drwy gydol blwyddyn ariannol 2020-21 – ceir rhagor o wybodaeth yn y llythyr dyfarnu.
25. Mae'n bosibl y bydd swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, yn gofyn am gyfarfodydd neu ymweliadau â'r safle i drafod cynllun fel sy'n briodol yn eu tyb nhw. Gallai methu â dangos cynnydd priodol wrth gyflawni'r cynllun arwain at dynnu cynigion cyllid yn ôl ac at gyllid sydd wedi ei hawlio hyd hynny yn cael ei adennill oddi wrth awdurdod lleol.
26. Bydd cynlluniau sy'n cynnwys arian cyfatebol yn denu sgôr ychwanegol yn y broses arfarnu, gyda chynlluniau sy'n dangos lefelau uwch o arian cyfatebol yn sgorio'n uwch.
27. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos yn glir lefelau a ffynonellau cyfraniadau sydd ar gael drwy arian cyfatebol a chadarnhau y bydd y cyllid hwn ar waith i sicrhau bod y gwaith wedi ei gwblhau o fewn blwyddyn ariannol 2020/21. Gall arian cyfatebol ddod o ffynonellau mewnol neu allanol a gall gynnwys ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu cynlluniau, yn ogystal â chyllid gan ffynonellau eraill megis cyllid cyfalaf a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, neu a sicrheir drwy'r broses gynllunio.
28. Lle y caiff mwy nag un cais eu cyflwyno, dylid trefnu'r holl gynlluniau, neu becynnau cynlluniau, yn ôl eu blaenoriaeth.
29. Lle y rhoddir cymeradwyaeth ddangosol i gynlluniau sy'n parhau am fwy nag un flwyddyn yn 2018-19 neu 2019-20, bydd angen ffurflen gais i ddiweddarau'r wybodaeth a roddwyd yn flaenorol. Dylai hon nodi newidiadau i ddyluniad y cynllun, amserlenni, a maint y grant y gwneir cais amdano. Os yw'r cais yn amrywio'n sylweddol ar yr hyn a gyflwynwyd yn flaenorol, bydd y cynllun yn cael ei drin fel pe bai'n gynllun newydd, ac ni fydd yn gymwys i gael cyllid yn awtomatig.

Pecynnau Cynllun

30. Gellir gwneud ceisiadau am gynlluniau newydd ar gyfer prosiectau unigol neu am becyn o brosiectau cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i awdurdodau lleol fabwysiadu dull cyfannol sy'n seiliedig ar leoedd o ddatblygu cynlluniau pecyn, yn hytrach na blaenoriaethu cynllun annibynnol er enghraifft, ym mhob un o'u haneddiadau a ddynodwyd.
31. Gallai pecynnau gwaith mân gynnwys cynlluniau sy'n debyg o ran eu natur, ond sy'n mynd i'r afael â bylchau a diffygion yn y rhwydwaith ar draws anheddiad neu ardal awdurdod lleol, megis gwella arwyddion, dileu neu newid rhwystrau a rhoi cyfleusterau cysylltiedig ar waith, megis lleoedd parcio beiciau. Mae awdurdodau lleol yn deall pecynnau llai o'r fath yn dda, a gellir eu dosbarthu'n gynigion Categori 1 a'u darparu drwy gyllid Dyrannu Craidd.
32. Gallai pecynnau mwy gynnwys cynlluniau sy'n rhannu man cychwyn neu gyrchfan cyffredin, er enghraifft, nifer o lwybrau sy'n eu cysylltu â chyfleuster addysg, canol tref neu gyfnewidfa drafnidiaeth. Gallent hefyd gynnwys ymyriadau ardal gyfan mwy cymhleth lle mae'n debygol y bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliad a'u cynnwys, megis cyflwyno athreithedd wedi'i hidlo neu fesurau gostegu traffig ardal gyfan i leihau cyflymder traffig. Mae hyn yn dechrau mynd i'r afael â'r angen i alluogi teithiau cyfan o'r dechrau i'r diwedd, yn gwella amlygrwydd a chyrhaeddiad y cynllun, a hefyd yn galluogi dulliau ymgynghori ac ymgysylltu manylach yn y lleoliadau hynny na fyddai'n bosibl eu cyflawni fel arall. Drwy gynnwys gweithgareddau hyrwyddo fel rhan annatod o gynlluniau cyfalaf, gellir rhoi hwb sylweddol i'w heffaith.
33. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y gallai hyn olygu na fydd rhai lleoliadau dynodedig o dan y Ddeddf Teithio Llesol yn gweld unrhyw fuddsoddiad newydd ar raddfa fawr yn y byrdymor. Fodd bynnag, mae'r dyraniad craidd, sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud gwelliannau ar raddfa fach, yn ogystal â chyflawni gwaith ymlaen llaw ar gyfer cynlluniau mawr, ar gael er mwyn mynd i'r afael â materion yn yr ardaloedd hynny dros dro.
34. Dylai ceisiadau am becyn o brosiectau gynnwys rhestr o'r prosiectau cysylltiedig, wedi'u prisio, yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Cronfa Teithio Llesol – Dyraniad Craidd

35. Dyrannwyd cyfran o £9,000,000 o'r Gronfa Teithio Llesol i bob awdurdod lleol, fel y nodir yn Atodiad 1.
36. Mae'r cyllid hwn ar gael at y dibenion canlynol:
- Datblygu'r Map Rhwydwaith Integredig ymhellach er mwyn paratoi i'w ailgyflwyno
 - Gwaith ymlaen llaw (dyluniad, dichonoldeb, trafod a phrynu tir, ymgynghori ac ymgysylltu, monitro llinell sylfaen, ac ati) ar gyfer cynlluniau Map Rhwydwaith Integredig yn eu lleoliadau dynodedig sydd â'r potensial mwyaf o ran teithio Llesol;
 - Gwelliant parhaus (gwaith mân ar lwybrau Map Llwybrau Presennol / Map Rhwydwaith Integredig, gan gynnwys lledu llwybrau, dileu rhwystrau, gosod lleodd

parcio i feiciau ac ati, ond ac eithrio gwaith cynnal a chadw arferol) er mwyn sicrhau bod llwybrau yn cyrraedd y safonau dylunio;

- Hyrwyddo cynlluniau, llwybrau a rhwydweithiau; a monitro a gwerthuso gan gynnwys sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer llwybrau a rhwydweithiau.

37. Mae'r dyraniad pro-rata yn seiliedig ar fformiwla sy'n gysylltiedig â maint y boblogaeth (50%) a'r ardal sy'n cynnwys aneddiadau dynodedig (50%), gyda dyraniad sylfaenol ar gyfer pob awdurdod lleol, sef £200,000.

38. Ar gyfer cynigion datblygu cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno cyn cynigion cyllido ar gyfer adeiladu yn y dyfodol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau'r adrannau Achos Strategol, Achos Trafnidiaeth ac Achos Ariannol ac unrhyw adrannau perthnasol sy'n ymwneud â cham datblygu'r cynllun. Rhagwelir y dylid deall yr Achos dros Newid yn dda, hyd yn oed ar gyfer cynlluniau sydd ar gamau cynnar y gwaith datblygu.

39. Gellir cyfuno gwelliannau i waith mân a gallant gynnwys amrywiaeth eang o fesurau, megis:

- Rhannau llai o lwybrau newydd
- Lledu llwybrau
- Cyrbiau is / palmant botymog
- Uwchraddio croesfannau a gosod rhai newydd
- Gwella cyffyrdd
- Dileu rhwystrau / addasiadau, rampiau
- Arwyddion
- Lleoedd parcio a chysgodi beiciau
- Seddi
- Trwsio beiciau a mannau gwefru e-feiciau

40. Gan eu bod yn gymharol syml, nid oes angen i awdurdodau lleol gwblhau'r ffurflenni cais llawn ar gyfer prosiectau neu becynnau gwaith mân. Yn hytrach, dylent gwblhau ffurflen fyrrach sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 o'r canllawiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at dri chynllun y Gronfa Teithio Llesol (ar y mwyaf).

41. Efallai y gallwch addasu'r amcangyfrifon cost ar gyfer elfennau yn amlen y dyraniad craidd cyffredinol mewn blwyddyn, yn amodol ar gymeradwyaeth. Efallai y gallwch hefyd ddileu neu ychwanegu cynlluniau dyrannu craidd mewn blwyddyn, yn amodol ar gymeradwyaeth.

Monitro a Gwerthuso

42. Caiff awdurdodau lleol gynnwys costau monitro am hyd at dair blynedd o fewn eu ceisiadau am gyllid ond mae'n rhaid eu nodi yn glir.

43. Rhai i bob cynllun gael ei fonitro a'i werthuso am gyfnod o dair blynedd ar ôl ei gwblhau. Dylai lefel y monitro a gwerthuso fod yn gymesur â maint y prosiect. Fodd bynnag, mae disgwyl i hyn gynnwys casgliad o ddata meintiol ac ansoddol, gan gynnwys y defnyddio dyfeisiau cyfrif awtomatig neu ddewis cyfatebol addas.

44. Mae canllawiau pellach ar y dull gweithredu y mae disgwyl i awdurdodau lleol ei fabwysiadu mewn perthynas â monitro a gwerthuso, gan gynnwys templedi ar gyfer

datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso, wedi'u cynnwys yn Atodiad 5 o'r canllawiau hyn.

Ymgynghori ac Ymgysylltu

45. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynnwys rhanddeiliaid perthnasol yn y gwaith o ddatblygu eu prosiectau, gan gynnwys ymgysylltu â thrigolion a chymunedau y mae'r cynllun yn effeithio arnynt. Po fwyaf o gyfle a fydd gan bobl i ddylanwadu ar gynlluniau cerdded a beicio a'u llunio ar gyfer eu hardal leol, y mwyaf tebygol yw y byddant yn eu defnyddio.
46. Ar gyfer cynlluniau sydd ar gam datblygu cynnar, neu os nad oes unrhyw weithgarwch ymgysylltu wedi'i drefnu ar hyn o bryd, mae templed o gynllun ymgysylltu â rhanddeiliad ar gael yn Atodiad 6 i helpu awdurdodau lleol.
47. Dylai awdurdodau lleol gadw cofnod o'r gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed, gan gynnwys crynodeb o'r broses a ddilynwyd, yr adborth a gafwyd a'r ffordd y mae hyn wedi effeithio ar ddatblygu neu ddyluniad y cynllun. Dylai'r wybodaeth hon ffurfio sail y dystiolaeth i fodloni gofynion 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran cydweithio a chynnwys.

Hyrwyddo

48. Gall ceisiadau gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cynlluniau ar gyfer hyd at dair blynedd ar ôl i gynllun gael ei gwblhau. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu nodi'n glir, a gallant gynnwys mentrau hyrwyddo megis datblygu a chynhyrchu deunyddiau hyrwyddo (e.e. mapiau o rwydweithiau teithio llesol lleol y bydd y cynllun yn rhan ohonynt), gwella arwyddion i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a'r gwaith o gynllunio a chydlyn digwyddiadau (e.e. achlysur lansio i ddathlu'r ffaith bod cynllun wedi'i gwblhau).
49. Dylai unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau a ariennir, yn rhannol neu'n llawn, drwy'r Gronfa Teithio Llesol, gydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru at y gwaith o ddarparu'r cynllun hwnnw. Dylai'r holl ddeunydd gael ei gyhoeddi yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Telerau ac amodau'r grant

50. Dyrennir cyllid i awdurdodau lleol yn uniongyrchol, a bydd ar gael ar gyfer 2020-21 yn unig. Dylai awdurdodau lleol nodi nad oes modd i Lywodraeth Cymru ymrwymo i roi cymorth ar ffurf grantiau ar ôl 2020-21.
51. Oni bai fod amgylchiadau eithriadol, a hynny drwy gytundeb ymlaen llaw, dylai cynlluniau a gyflwynir ar gyfer cyllid gwaith yn 2020-21 bod yr holl broblemau mewn perthynas â thir wedi cael eu datrys, neu y byddant yn cael eu datrys, a bod gorchmynion neu ganiatadau angenrheidiol ar waith er mwyn caniatáu i waith symud yn ei flaen.
52. Er bod Llywodraeth Cymru yn barod i dalu'r gost o brynu tir, ni ddarperir cyllid mewn perthynas â hawliadau iawndal sy'n codi o'r gwaith o brynu tir neu o'r prosiect ei hun.

53. Mae darparu cymorth cyfalaf i gynlluniau yn amodol ar ymrwymiad awdurdodau lleol i dalu costau refeniw a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Y broses gwneud cais

54. Ac eithrio'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn y prosiect peilot ar gyfer ceisiadau'r cynllun, dylai awdurdodau lleol gyflwyno eu ceisiadau drwy ddefnyddio'r templedi ffurflenni cais perthnasol. Bydd pob cynllun yn cael ei asesu drwy broses arfarnu.

55. Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yng nghynllun peilot y porth gwneud cais a'r rhaglen, yn cael rhagor o fanylion am y gweithdrefnau i'w dilyn ar wahân

56. Awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cadw at yr amserlen ac am nodi unrhyw newid i'r rhaglen waith a/neu'r proffil gwariant.

57. Rhaid i geisiadau, gan gynnwys cynlluniau sy'n ceisio cyllid dyrannu craidd, **gynnwys cynllun sy'n dangos y cynllun mewn cymaint o fanylder ag y bo modd ar adeg y cais, a map sy'n dangos y ffordd y mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach er mwyn darparu cyd-destun.** Rhaid hefyd gynnwys cyfeirnod grid Arolwg Ordnans Prydain.

58. Bydd dogfennau ategol yn cael eu hystyried fel a ganlyn:

- Mapiau a chynlluniau ar gyfer ceisiadau cyfalaf (rhaid i'r mapiau a'r cynlluniau hyn ddangos y mesurau arfaethedig yn glir)
- Rhaid sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wybodaeth ategol ar gael, sy'n hanfodol i'r cynnig yn eich barn chi, a bod y wybodaeth honno yn ddienw, lle y bo'n gymwys.
- Tystiolaeth i gefnogi camau a gwblhawyd.

Proses Arfarnu

59. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan banel o swyddogion trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol perthnasol fel sy'n briodol. **Bydd disgwyl i gynlluniau a gyflwynir gael sgôr o 1 o leiaf ym mhob categori, ac eithrio'r categori cyllid cyfatebol, er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid.**

60. Y Dirprwy Weinidog a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar gyllid.

61. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y grantiau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 isod. Mae'r sgoriau yn gronnol ac felly mae'n rhaid i'r cynlluniau gyflawni'r holl feini prawf ym mhob blwch, a phob blwch dilynol, er mwyn cael nifer y pwyntiau a nodwyd. Er enghraifft, er mwyn cael 3 phwynt o dan gyfres meini prawf penodol, rhaid cyflawni pob un o'r gofynion a nodir ym mlychau 1, 2 a 3.

62. Caiff pwysoliad ei gymhwyso at y meini prawf asesu, fel y nodir yn y tabl isod, a gaiff ei luosi gan y gwerthoedd asesu a'i adio i ddarparu sgôr derfynol ar gyfer pob cynllun a gyflwynwyd drwy'r broses cyflwyno cynigion gystadleuol.

Categori Meini Prawf Asesu	Pwysoliad
Yr Achos dros Newid	10
Cyd-fynd ag Amcanion y Grant	5
Asesiad Effaith	5
Ansawdd Seilwaith	7
Monitro a Gwerthuso	5
Cymuned ac Ymgysylltu	6
Y gallu i gyflawni	5
Cyllid Cyfatebol	3

Sut i Wneud Cais

Dylid anfon tri chopi caled o bob ffurflen gais i'r cyfeiriad isod:

Grantiau Trafnidiaeth, Craidd y De – Ail Lawr
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Rhaid anfon copiâu electronig at y cyswllt perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn y rhestr isod gan ddefnyddio'r cyfeiriad transportplanning@gov.wales:

Natalie Grohmann - Arweinydd Tîm Polisi Trafnidiaeth
transportplanning@gov.wales
03000 251533

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 14 Chwefror 2020.

Ni dderbynnir unrhyw wybodaeth ychwanegol neu ddiwygiedig ar ôl y dyddiad uchod, oni bai y gofynnir amdani gan Lywodraeth Cymru.

ATODIAD 1 - DYRANIADAU CRAIDD AWDURDOD LLEOL

Awdurdod Lleol	Swm y Dyraniad Craidd
Blaenau Gwent	£ 234,000
Pen-y-bont ar Ogwr	£ 458,000
Caerffili	£ 558,000
Caerdydd	£ 1,063,000
Sir Gaerfyrddin	£ 478,000
Ceredigion	£ 200,000
Conwy	£ 361,000
Sir Ddinbych	£ 258,000
Sir y Fflint	£ 462,000
Gwynedd	£ 203,000
Ynys Môn	£ 200,000
Merthyr Tudful	£ 200,000
Sir Fynwy	£ 237,000
Castell-nedd Port Talbot	£ 465,000
Casnewydd	£ 484,000
Sir Benfro	£ 260,000
Powys	£ 228,000
Rhondda Cynon Taf	£ 726,000
Abertawe	£ 773,000
Bro Morgannwg	£ 410,000
Torfaen	£ 329,000
Wreccsam	£ 413,000
Cymru	£ 9,000,000

ATODIAD 2 – GWAITH MÂN (CATEGORI 1) – FFURFLENNI CYNLLUN

Awdurdod Lleol	
Cyfanswm Nifer y Cynlluniau	
Cyfanswm Cost (pob cynllun)	

Enw'r Cynllun	
Rheolwr y Prosiect Enw: E-bost:	
Lleoliad / Lleoliadau Dynodedig	
Cyfeiriad(au) Map Llwybrau Presennol / Map Rhwydwaith Integredig	
Math o Weithgarwch (disgrifiad byr o'r cynllun)	
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater presennol a'r broses flaenoriaethu)	
Amserlen ddisgwyliedig	
Amcangyfrif o'r Costau	

Enw'r Cynllun	
Rheolwr y Prosiect Enw: E-bost:	
Lleoliad / Lleoliadau Dynodedig	
Cyfeiriad(au) Map Llwybrau Presennol / Map Rhwydwaith Integredig	
Math o Weithgarwch (disgrifiad byr o'r cynllun)	
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater presennol a'r broses flaenoriaethu)	
Amserlen ddisgwyliedig	
Amcangyfrif o'r Costau	

ATODIAD 3 – MEINI PRAWF ASESU'R CYNLLUN

Bydd disgwyl i gynlluniau a gyflwynir gael sgôr o 1 o leiaf ym mhob categori, ac eithrio'r categori cyllid cyfatebol, er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid.

Sgorio		Achos Strategol - Yr Achos dros Newid
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	Ni fydd y prosiect yn darparu ar gyfer pobl sy'n teithio'n llesol bob dydd neu'n cyfrannu at newid moddol.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Mae gan y prosiect y potensial i newid ymddygiadau teithio ond mae o fudd strategol cyfyngedig, ynghyd â photensial cyfyngedig ar gyfer newid moddol. - Mae'r prosiect wedi dilyn proses sylfaenol WelTAG.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Mae'r prosiect yn cysylltu prif drefnwyr teithiau â'r potensial ar gyfer newid moddol. - Mae canlyniadau'r prosiect yn cyfrannu'n cadarnhaol at gyflawni amcanion rhaglenni/strategaethau eraill ee seilwaith gwyrdd, datgarboneiddio, ansawdd aer, digonolrwydd cyfleoedd chwarae. - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth dda i gefnogi dilyn proses WelTAG.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Mae'r prosiect wedi'i lywio gan amcanion rhaglenni/strategaethau eraill ee seilwaith gwyrdd, datgarboneiddio, ansawdd aer, digonolrwydd cyfleoedd chwarae. - Mae'r prosiect yn cysylltu nifer mawr o brif drefnwyr teithiau â'r potensial ar gyfer newid moddol - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth gref i gefnogi dilyn proses WelTAG.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau	Mae'r prosiect yn gallu darparu tystiolaeth gref o ddatblygiad mewn partneriaeth ag

presennol	asiantaethau/rhaglenni eraill ee Bwrdd Iechyd Lleol, cyflogwr mawr neu gyfleuster addysg.
Dau neu fwy yn cael sgôr o 4 pwynt	- Mae'r prosiect yn ceisio darparu ar gyfer cymunedau sy'n ymddangos yn y 15% isaf o'r MALIC a/neu lle y mae angen cymdeithasol wedi'i nodi. - Mae'r prosiect yn gallu dangos datblygiad proses WelTAG a all fod yn esiampl i brosiectau eraill.

Sgorio		Achos Strategol – Cyd-fynd ag Amcanion y Grant
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	Nid yw'r prosiect yn cyfrannu at unrhyw rai o'r amcanion y grant.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	Mae'r prosiect yn dangos ei fod yn cyfrannu'n dda at rai o amcanion y grant.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth dda ei fod yn cyd-fynd ag amcanion y grant i gyd.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth gref ei fod yn cyd-fynd â rhai o amcanion y grant.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol	Mae'r prosiect yn dangos tystiolaeth gref ei fod yn cyflawni holl amcanion y cyllid grant.

Sgorio		Achos Trafnidiaeth – Asesiad Effaith
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	- Nid yw'r prosiect wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r 5 Ffordd o Weithio, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na phroses WeITAG - Nid oes tystiolaeth ei fod wedi cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant lleol.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth sylfaenol o'r ffaith ei fod wedi cael ei ddatblygu drwy ddilyn y pum ffordd o weithio. - Mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at gyflawni'r nodau llesiant. - Mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at gyflawni amcanion llesiant lleol.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Mae'r prosiect yn dangos tystiolaeth dda yn erbyn rhai o'r pum ffordd o weithio. - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth dda o'r ffaith ei fod yn cyfrannu at y nodau llesiant. - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth dda o'r ffaith ei fod yn cyfrannu at amcanion llesiant lleol.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth gref o'r ffaith ei fod yn cyfrannu at amcanion llesiant lleol. - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth gref o'r ffaith ei fod yn cyfrannu at y nodau llesiant. - Mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth gref yn erbyn y pum ffordd o weithio.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	- Mae'r prosiect yn dangos tystiolaeth o ffyrdd arloesol o roi'r pum ffordd o weithio ar waith drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun - Mae'r dyluniadau yn integreiddio seilwaith gwyrdd newydd ac yn cynyddu bioamrywiaeth.

Sgorio		Ansawdd Seilwaith
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	- Nid yw dyluniadau yn adlewyrchu'r hierarchaeth trafndiaeth. - Nid yw dyluniadau yn gyson ag egwyddorion Dylunio Llywodraeth Cymru. - Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o ymgysylltu a oedd yn targedu pobl â nodweddion gwarchodedig, na thystiolaeth o wneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Mae'r cynnig yn rhan o lwybr strategol allweddol sy'n methu â bodloni'r gofynion archwilio sylfaenol o drwch blewyn, ac ni ellir ei wella (60%-69%). - Mae addasiadau/ystyriaethau rhesymol wedi cael eu cynnwys i ddarparu ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Mae dyluniadau yn bodloni Egwyddorion Dylunio Llywodraeth Cymru a gofynion archwilio Canllawiau Dylunio (70%-79%). - Mae'r dyluniad yn ddiogel, yn gyson, yn uniongyrchol, yn gyfforddus ac yn ddeniadol.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Mae dyluniadau yn bodloni gofynion archwilio dymunol y Canllawiau Dylunio (80%-89%). - Mae dyluniadau yn cynnwys datrysiadau sy'n benodol i gyd-destun, sy'n dangos arfer gorau mewn perthynas â lled, diogelwch neu wahanu, geometreg, hygyrchedd a chynhwysiant digonol.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	- Mae'r dyluniad yn rhagori o bell ffordd ar ofynion archwilio sylfaenol Canllawiau Dylunio Llywodraeth Cymru (90%+). - Bydd y prosiect yn esiampl i brosiectau eraill ar draws Cymru. - Mae dyluniadau yn cynnwys y defnydd o fanylion "posibl" neu "a awgrymir" yn unol â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol.

Sgorio		Ansawdd Seilwaith
		Mae cynigion yn datblygu datrysiadau dylunio arloesol er mwyn gwella bywydau'r bobl â nodweddion gwarchodedig.

Sgorio		Monitro a Gwerthuso
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	Ni chynigiwyd unrhyw waith monitro na gwerthuso.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Ychydig iawn o waith monitro a gwerthuso sydd wedi'i gynllunio i gasglu data llinell sylfaen a data ar ôl adeiladu [er enghraifft, dim ond monitro'r defnydd o un adnodd casglu data]. - Nodi amcanion y Gronfa Teithio Llesol a/neu ganlyniadau'r cynllun o ran dull monitro.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Caiff cynllun Monitro a Gwerthuso sylfaenol ei gwblhau. - Tystiolaeth o gysondeb ag amcanion y Gronfa Teithio Llesol o ran dull monitro e.e. wedi cwblhau fframwaith rhesymeg.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Caiff cynllun Monitro a Gwerthuso llawn ei gwblhau er mwyn mesur llwyddiant y prosiect yn seiliedig ar amcanion y Gronfa Teithio Llesol, gan gynnwys ystyriaeth o fuddiannau ehangach y cynllun. - Casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol gan ddefnyddio'r adnoddau priodol.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	- Cynigiwyd rhesymeg arloesol. - Mae'r cynllun monitro a gwerthuso yn disgrifio'r ffordd y gellid defnyddio canlyniadau i lywio'r gwaith o ddatblygu prosiectau eraill a rhannu dysgu. - Mae'r cynllun monitro a gwerthuso yn cynnwys buddiannau ehangach y cynllun.

Sgorio		Cymuned ac Ymgysylltu
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	- Ni chynhaliwyd na chynlluniwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned. - Ni nodwyd rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, gan gynnwys grwpiau na chânt eu clywed yn aml a'r rheini â nodweddion gwarchodedig, neu ni chawsant eu cynnwys.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Cynhaliwyd neu cynlluniwyd gwaith mapio rhanddeiliad er mwyn nodi grwpiau yr effeithir arnynt. - Mae gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn bodloni gofynion sylfaenol, gan gynnwys grwpiau na chânt eu clywed yn aml a'r rheini â nodweddion gwarchodedig.
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Datblygwyd cynllun ystyriol a chyflawnadwy o ymgysylltu â'r gymuned. - Tystiolaeth o waith hyrwyddo yn cael ei gynnwys fel rhan o'r prosiect e.e. achlysur lansio wedi'i drefnu neu gynhyrchu deunyddiau ategol.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Tystiolaeth y bydd y prosiect yn cael ei lywio gan anghenion y gymuned e.e. fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau drwy gyd-gynhyrchu. - Mae'r cynnig yn gysylltiedig â gweithgareddau newid ymddygiad i fynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol a nodwyd na all y seilwaith fynd i'r afael â nhw e.e. hyfforddiant beicio a cherdded. - Tystiolaeth o waith hyrwyddo yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid e.e. datblygu mapiau lleol â rhanddeiliaid.
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	- Mae gwaith ymchwil i ymatebion ymgysylltu blaenorol sy'n berthnasol i'r prosiect wedi cael ei wneud a gwersi wedi cael eu dysgu. - Cynigiwyd dulliau gweithredu arloesol sy'n ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau yr effeithir arnynt sy'n wynebu anghydraddoldebau

		Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i ddatblygu a darparu gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned a gweithgareddau newid ymddygiad.
--	--	--

Sgorio		Y gallu i gyflawni – Achos Rheoli
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	- Nid yw camau dylunio blaenorol wedi'u cymeradwyo. - Ni roddwyd y gymeradwyaeth na'r caniatâd sydd eu hangen gan y cyngor er mwyn cwblhau'r camau arfaethedig. - Ni nodwyd unrhyw risgiau mewn perthynas â'r prosiect.
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	- Cymeradwywyd camau dylunio blaenorol - Ystyriwyd bod yr amserlen a'r gyllideb yn gyflawnadwy. - Nodwyd risgiau lefel uchel y prosiect ac awgrymwyd mesurau lliniaru. - Datryswyd gofynion mewn perthynas â pherchenogaeth tir (ar gyfer prosiectau adeiladu yn unig).
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	- Mae amserlen y prosiect yn cynnwys proses gaffael. - Mae risgiau sy'n benodol i'r prosiect (gan gynnwys caniatadau) wedi cael eu nodi ac mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith.
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	- Mae proses gaffael yn barod i'w rhoi ar waith a pharatowyd dogfennau tendr. - Mae risgiau mewn perthynas â'r prosiect wedi cael eu nodi ac mae risgiau allweddol wedi cael eu lliniaru (gan gynnwys caniatadau angenrheidiol).
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn	- Mae gan y prosiect gyllid cyfatebol ar gyfer adeiladu eisoes. - Cwblhawyd proses gaffael a nodwyd cyflenwr - Nodwyd risgiau mewn perthynas â'r prosiect ac mae pob risg wedi cael ei lliniaru.

	cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	
--	----------------------------	--

Sgorio		Cyllid Cyfatebol
0 Pwynt	Nid yw'n bodloni gofynion	Nid oes unrhyw gyllid cyfatebol ar gael
1 Pwynt	Yn bodloni gofynion sylfaenol	1% – 10% o gyllid cyfatebol ar gael
2 Pwynt	Yn uwch na'r cyfartaledd	11% – 20% o gyllid cyfatebol ar gael
3 Phwynt	Yn bodloni arfer gorau presennol	21% – 30% o gyllid cyfatebol ar gael
4 Pwynt	Yn rhagori ar arfer gorau presennol Dau neu fwy yn cael sgôr o <u>4 pwynt</u>	mwya na 30% o gyllid cyfatebol ar gael

ATODIAD 4 – CAMAU'R PROSIECT

	Cam A	Cam B	Cam C	Cam D	Cam E	Cam F	Cam G
	Diffinio strategol, cwmpas prosiect a chanlyniadau	Datblygu opsiynau a Dethol	Dyluniad cychwynnol o un opsiwn	Proses statudol	Dyluniad manwl o un opsiwn	Adeiladu a throsglwyddo	Cwblhau'n derfynol
Nod y Cam	Gweledigaeth strategol – diffinio nodau strategol a gweledigaeth gyffredinol. Deall y materion, datblygu cwmpas y prosiect a nodi canlyniadau bwriadedig.	Asesu rhestr fer o opsiynau (gan gynnwys asesiad o bob opsiwn er mwyn dewis yr opsiwn a ffefrir i fodloni canlyniadau a nodir). Risgiau a thystiolaeth allweddol a gasglwyd yn llywio'r gwaith o ddewis opsiwn a ffefrir.	Paratowyd dyluniad dros dro ar gyfer un opsiwn. I gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd.	Mae hon yn broses baralel a dylid ei chynnal ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu camau blaenorol o'r cynllun hwn.	Defnyddiwyd gwaith dylunio ac arfarnu manwl i fireinio cynllun yr opsiwn a ffefrir er mwyn nodi pris terfynol a chyfres o bethau i'w cyflawni. Mae'r penderfyniad i fwrw ymlaen neu beidio yn seiliedig ar achos busnes a ddiweddarwyd.	Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a gellir dod â'r gwaith i ben.	Mae'r prosiect yn cael ei ddefnyddio a rhaid ei gynnal.
Gofynion Sylfaenol	Yr achos dros newid Nodwyd rhestr fer o gynlluniau sy'n bodloni amcanion cynllun ac a fydd yn darparu canlyniadau bwriadedig Arfarniadau opsiynau i nodi rhestr fer o brosiectau Nodwyd risgiau allweddol Amcangyfrifon costau lefel uchel	Asesiad o'r opsiynau sydd wedi'u nodi ar y rhestr fer yn erbyn amcanion y cynllun Mae'r opsiwn a ffefrir yn bodloni gofynion adnoddau archwilio sylfaenol Tystiolaeth o ymgysylltu â'r cyhoedd yn unol â'r cynllun ymgysylltu er mwyn mireinio cwmpas	Dyluniad cysyniad opsiwn a ffefrir yn bodloni meini prawf ansawdd sylfaenol Ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cadarnhau dyluniad y cysyniad (gan gynnwys mewnbwn gan grwpiau/cynrychiolwyr â nodweddion gwarchodedig); Cynhaliwyd Cam 2 RSA	Cadarnhad o ganiatadau angenrheidiol wedi'u sicrhau	Dyluniadau manwl yn bodloni meini prawf ansawdd y cytunwyd arnynt Dogfennau tendr gan gynnwys Paratoi Rhestr Feintiau Cadarnhau strategaeth gaffael Cofrestru risg wedi'i diweddarau	Trafodaeth barhaus ac adroddiadau cynnydd yn cael eu darparu er mwyn nodi unrhyw amrywiad ar yr allbynnau bwriadedig.	Achos busnes alldro Tystiolaeth o allbynnau prosiect A wnaeth y prosiect gyflawni canlyniadau/allbynnau disgwyledig? DO/NADDO Adroddiad ar wersi a ddysgwyd

	Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliad Cynllun monitro a gwerthuso Strategaeth gaffael ddrafft	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau Strategaeth gaffael wedi'i diweddarau Cofrestr risg lefel uchel Nodwyd gofynion o ran caniatâd/cydsyniad Nodwyd arolygon ychwanegol	Cynllun monitro a gwerthuso wedi'i ddiweddarau Achos busnes wedi'i ddiweddarau (costau ac ati) Cofrestr risg wedi'i diweddarau		Achos busnes wedi'i ddiweddarau'n dderbyniol a chyllid ar gael Diweddarwyd cynllun monitro a gwerthuso.		
--	--	---	---	--	---	--	--

ATODIAD 5 – CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO

Ysgrifennwyd y templed hwn i helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu cynlluniau monitro a gwerthuso i'w cyflwyno i'r Gronfa Teithio Llesol. Bwriedir i'r templed hwn gael ei ddefnyddio fel canllaw a dylid ei addasu i gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol ar gyfer pob prosiect a gyflwynir.

- Mae'r testun italig yn darparu canllawiau ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys ym mhob adran o'r cynllun. Mewn rhai mannau, mae'r canllawiau hyn yn nodi ble y dylid addasu gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gymesur â'r cynllun sy'n cael ei gyflawni.
- Dylid newid yr holl destun sydd wedi'i uwcholeuo'n felyn i gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r prosiect.

Noder bod y cynllun monitro hwn yn tybio bod unrhyw wybodaeth am y gyllideb fonitro (a dadansoddiad o gostau) wedi'i darparu ar wahân mewn cyllideb prosiect lawn i'w chyflwyno i'r Gronfa Teithio Llesol

A 4.1 Fframwaith Rhesymeg

Mae'r adran hon yn cynnwys fframwaith rhesymeg i ddangos cysondeb elfennau'r prosiect i'w cyflawni a'r canlyniadau ag amcanion y Gronfa Teithio Llesol ac unrhyw amcanion polisi perthnasol gan Lywodraeth Cymru. Bwriedir i'r adran hon ddangos rhesymeg fewnol y prosiectau h.y. y berthynas rhwng mewnbynnau ac allbynnau a'r newid dymunol, yn ogystal â darparu adnodd defnyddiol ar gyfer llunio strwythur y dull o fonitro a gwerthuso.

Efallai y bydd cynlluniau sy'n llai cymhleth a/neu ar raddfa neu o werth is, yn dewis peidio â chwblhau fframwaith rhesymeg llawn. Mae'n rhaid i gynlluniau cymhleth, ar raddfa fawr/o werth uchel, sydd â sawl elfen, ac y mae'r gwaith o'u darparu yn ymestyn dros sawl blwyddyn, gwblhau fframwaith rhesymeg.

Nodwch unrhyw amcanion neu ganlyniadau cynllun eraill yn y fframwaith rhesymeg, h.y. ni ddylai hyn ymwneud ag amcanion y Gronfa Teithio Llesol yn unig.

Tabl A4.1: Fframwaith rhesymeg

Cynllun/Amcan y Gronfa Teithio Llesol	Mewnbwn	Allbwn	Canlyniad	Effaith	Dull Mesur	Amllder casglu data
e.e. Gwella diogelwch beicio	e.e. Adnoddau gwella seilwaith	e.e. Llwybr ffisegol, arwyddion	e.e. Mwy o ddefnydd, canfyddiadau o ddiogelwch gwell	e.e. Lleihau nifer yr achosion o ddamweiniau, gostwng lefelau tagfeydd	e.e. Holiaduron Ailgyfeirio Defnyddwyr y Ffordd, dyfeisiau cyfrif awtomatig	e.e. Blynnyddol, chwarterol, misol

A4.2 Monitro Allbynnau a Chyfrifoldebau

Caiff allbwn ei ddiffinio fel unrhyw beth a gaiff ei ddarparu drwy weithgarwch prosiect. Mae enghreifftiau yn cynnwys: nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect, nifer y gweithgareddau a ddarparwyd, nifer yr hyrwyddwyr a recriwtiwyd, ac ati.

Newidiwch y tabl isod i gynnwys gwybodaeth am yr allbynnau sy'n berthnasol i'r prosiect. Dylai hyn gynnwys yr holl allbynnau prosiect perthnasol, nid dim ond y rhai sy'n berthnasol i amcanion y Gronfa Teithio Llesol

Tabl A4.2: Monitro allbynnau a chyfrifoldebau

Allbwn	Dangosydd	Tystiolaeth ac adnodd casglu data	Data a gasglwyd
<i>Rhestru pob allbwn prosiect Gweler testun enghreifftiol isod</i>	<i>Nodi'r dangosyddion sy'n berthnasol i bob canlyniad prosiect Gweler testun enghreifftiol isod</i>	<i>Nodi pa dystiolaeth neu adnodd casglu data a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y canlyniad prosiect hwn Gweler testun enghreifftiol isod</i>	<i>Nodi pryd yn ystod cylch oes y prosiect y bydd y data yn cael eu casglu Gweler testun enghreifftiol isod</i>
Rhoi wyneb newydd/gwella'r llwybr halio	Rhoi wyneb newydd/gwelwyd [nifer] cilomedr o lwybr	Cofnod adeiladu	Ar ôl adeiladu
Darparu seilwaith ansawdd uchel sy'n bodloni safonau dylunio	Darparu [swm] o seilwaith Tystiolaeth o fodloni'r safonau dylunio	Cofnod adeiladu Allbynnau'r broses ddylunio	Ar ôl adeiladu

A 4.3 Monitro Canlyniadau a Chyfrifoldebau

*Caiff canlyniad ei ddiffinio fel canlyniad byrdymor i dymor canolig a gaiff ei gyflawni drwy ddarparu allbynnau. Dyma'r **newid** sy'n deillio o'r gwaith o ddarparu gweithgareddau'r prosiect e.e. mwy o gerdded a beicio, llesiant gwell, ac ati.*

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos y canlyniadau prosiect perthnasol, a'r ffordd y cânt eu monitro a'u gwerthuso. Dylai hyn gynnwys holl ganlyniadau perthnasol y prosiect, nid dim ond y rhai sy'n berthnasol i amcanion y Gronfa Teithio Llesol.

Tabl A4.3: Monitro canlyniadau a chyfrifoldebau

Canlyniad Prosiect/Cronfa Teithio Llesol	Canlyniad	Dangosydd	Tystiolaeth ac adnodd monitro	Data a gasglwyd
Rhestru pob amcan y Gronfa Teithio Llesol Gweler testun enghreifftiol isod	Rhestru pob canlyniad prosiect perthnasol, fel y'u bod yn gysylltiedig ag amcanion perthnasol y Gronfa Teithio Llesol Gweler testun enghreifftiol isod	Nodi'r dangosyddion sy'n berthnasol i bob canlyniad prosiect Gweler testun enghreifftiol isod	Nodi pa dystiolaeth neu adnodd casglu data a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y canlyniad prosiect hwn. Gweler testun enghreifftiol isod	Nodi pryd yn ystod cylch oes y prosiect y caiff y data eu casglu Gweler testun enghreifftiol isod
Cynyddu lefelau teithio llesol	Lefelau uwch o gerdded a beicio ar hyd llwybr halio	Lefelau uwch o gerdded a beicio ar hyd llwybr halio	Cyfrif â llaw neu arolwg i ddefnyddwyr ar y llwybr halio	Cyn ac ar ôl adeiladu
Cynyddu lefelau teithio llesol	Cynnydd yn nifer y teithiau a wneir drwy gerdded a beicio ar y llwybrau targed	Cynnydd yn nifer y bobl sy'n cerdded a beicio ar hyd llwybrau targed at ddibenion teithio llesol	Dyfais cyfrif beiciau awtomatig yn cael ei gosod mewn lleoliadau allweddol Cyfrif â llaw Arolwg Defnyddwyr Llwybrau gan gynnwys data cod	Cyn ac ar ôl adeiladu

			post i nodi trigolion lleol a diben teithiau	
--	--	--	---	--

ATODIAD 6 – CYNLLUN YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID

Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid				Tystiolaeth o'r ymgysylltu		
Rhanddeiliad	Diddordeb a Materion Allweddol	Dull Ymgysylltu	Amllder Ymgysylltu	Cynhaliwyd Digwyddiad (DO/NADD0)	Darparwyd Tystiolaeth (DO/NADD0)	Math o Dystiolaeth
e.e. Cynghorydd Lleol	Effaith ar drigolion lleol	E-byst, galwadau ffôn, sesiynau briffio	Diweddariadau ar gerrig milltir allweddol			